## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (MALLWYD I NANT YR EHEDYDD, GWYNEDD) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, rhwng Mallwyd a Nant yr Ehedydd, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A458 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Mallwyd yr A470 i Nant yr Ehedydd, ger ffin Gwynedd/Powys. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau a dim ond am gyfnodau byr y bydd hyn yn para. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

ii. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya, 30 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darn o'r A458 a ddisgrifir uchod. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 7 Ebrill 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 7 Ebrill 2023 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A458 TRUNK ROAD (MALLWYD TO NANT YR EHEDYDD, GWYNEDD) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road between Mallwyd and Nant yr Ehedydd, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A458 that extends from its junction with the A470 Mallwyd Roundabout to Nant yr Ehedydd, near the Gwynedd/Powys border. Any such closures will be indicated by advance traffic signs and will only be for short periods of time. No diversionary routes are necessary.

ii. Impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the length of the A458 described above. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working.

The Order comes into force on 7 April 2023. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate intermittently from 08:00 hours on 7 April 2023 for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government